# SL(6)529 - Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (Rheoliadau 2006) i ddiweddaru'r taliadau sy'n daladwy i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol mewn perthynas â gwyliadwriaeth ar gyfer gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau penodol eraill mewn anifeiliaid cynnyrch bwyd, a chynhyrchion anifeiliaid fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2006 i roi awdurdodau cymwys yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymru. Bydd y diwygiadau hyn yn galluogi'r awdurdodau cymwys sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol i adennill y taliad yr eir iddo wrth gynnal yr arolygiadau a'r rheolaethau mewn perthynas â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid am weddillion cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a sylweddau eraill.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

   Yn rheoliad 2(5), ymddengys bod gwall yng ngholofn 2 o'r tabl sydd i'w fewnosod fel Atodlen 1. Y tâl rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 am "Soliped" yw £0.04287 fesul carcas, gan godi i £0.4660 fesul carcas o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Y tâl cyfredol a nodir yn Atodlen 1 yn y rheoliadau presennol yw £0.3536. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a yw'r "0" sydd wedi'i gynnwys ar ôl y pwynt degol yn gamgymeriad, gan fod y ffigur hwn yn sylweddol is na'r ffigur ar gyfer yr un cyfnod a geir mewn rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr a'r Alban, sef £0.4287 fesul carcas. O gofio mai pwrpas y Rheoliadau hyn yw cael dull unffurf ar draws y DU, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ai camgymeriad yw hyn neu a fwriedir i daliadau sy'n ymwneud â "Soliped" yng Nghymru fod yn wahanol i daliadau a restrir yn y ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban a Lloegr. Cyfeiriwch at reoliad 2 o'r

Charges for Residues Surveillance (Amendment) (England) Regulations 2024/892 a'r Charges for Residues Surveillance Amendment (Scotland) Regulations 2024/218.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd y rheoliadau penderfyniadau negyddol hyn gerbron y Senedd ar 20 Medi 2024 ond maent wedi dod i rym ar 1 Hydref 2024. Mae Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn nodi'r rheol 21 diwrnod. Ystyr hyn yw os na chaiff offeryn statudol gweithdrefn negyddol ei osod o leiaf 21 **diwrnod calendr** (gan gynnwys penwythnosau, gwyliau banc, toriad) cyn i'r offeryn statudol ddod i rym, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r Llywydd ac esbonio pam mae'r rheol 21 diwrnod wedi'i thorri. Ysgrifennodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, at y Llywydd ar 20 Medi 2024 a nododd yr hyn a ganlyn:

*"Cynigir cyflwyno'r newid mewn taliadau ar gyfer gwyliadwriaeth gweddillion ar draws Prydain Fawr. Wrth gytuno ar y polisi a chynnwys y Rheoliadau arfaethedig sydd i'w gwneud mewn perthynas â Chymru, fe wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru waith ymgysylltu pellach gyda rhai rhanddeiliaid ynghylch y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau perthnasol. O ganlyniad i hynny, gwnaed gwelliannau pellach i'r Rheoliadau drafft er mwyn rhoi'r swyddogaethau gorfodi mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru. Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu hwn, fe ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) i geisio (a derbyn) cadarnhad gan yr FSA nad oedd agweddau diogelwch bwyd uniongyrchol yn gofyn am gyngor gan yr FSA. Roedd y gwaith ymgysylltu pellach hwn yn golygu na ellid cytuno ar y Rheoliadau, eu gwneud a'u gosod 21 diwrnod cyn bod gofyn iddynt ddod i rym.*

*Mae'r dyddiad dod i rym sef 1 Hydref wedi'i gytuno gyda Llywodraeth y DU a Gweinidogion yr Alban. Byddai gwahaniaethau yn arwain at godi cyfraddau gwahanol yng Nghymru o'i gymharu â gweddill Prydain Fawr a methiant o ran cyd-fynd â dull gweithredu ar draws Prydain Fawr a gytunwyd yn y Grŵp Polisi Anifeiliaid a Chlefydau. Byddai hyn yn arwain at amharu'n sylweddol ar y diwydiant. Am y rhesymau a amlinellwyd, ni ddylid cadw at y confensiwn 21 diwrnod."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol a nodir uchod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.